Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Polisi Caffael Moesegol Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Cyngor yw corff cyhoeddus swyddogol Cymru sy’n ariannu a datblygu'r celfyddydau.

Bob dydd mae pobl ledled Cymru yn mwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan ynddyn nhw. Ein gwaith ni yw cefnogi a thyfu’r gweithgarwch yma. I wneud hyn, rydym ni’n cael arian oddi wrth Lywodraeth Cymru a’r Loteri Genedlaethol (am ein bod ni’n achos da).

Drwy reoli’r arian yma a’i fuddsoddi mewn gweithgarwch creadigol, rydym ni’n cyfrannu at ansawdd bywyd pobl Cymru ac at ein lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae’n rhaid inni gydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru am Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Byddwn ni’n:

- glynu at bolisïau a deddfau llywodraethau sy’n lliniaru'r peryglon sy'n gysylltiedig â cham-drin gweithwyr drwy gaethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl
- glynu at unrhyw sancsiynau masnachu cydnabyddedig gan y llywodraeth
- gwrthod gweithio gydag unrhyw gyflenwyr mae gennym ni reswm i gredu eu bod yn ymelwa ar eu gweithwyr yn annheg

## Gweithwyr

Rydym ni’n ymrwymedig i sicrhau bod ein harferion cyflogi a’n polisïau a’n gweithdrefnau corfforaethol yn diogelu hawliau'r rhai sy'n gweithio inni. Rydym ni’n gwneud mwy nag angenrheidiol o ran y safonau gofynnol dan y gyfraith i sicrhau bod ein gweithwyr yn ddiogel, yn cael eu talu’n deg a chael eu gwerthfawrogi. Rydym ni’n cyhoeddi ein datganiad o bolisi cyflog bob blwyddyn.

Rydym ni’n gwybod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr ac rydym ni’n ymrwymedig i gynnig telerau ac amodau teg i bob un ohonyn nhw. Rydym ni’n meincnodi ein telerau ac amodau yn erbyn cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru ac rydym ni’n ymgynghori gyda’r undeb rydym ni’n ei gydnabod am ein cynnig tâl a buddion cystadleuol er mwyn denu staff newydd a chadw ein gweithlu presennol.

## Caffael moesegol

Rydym ni’n ymrwymedig i annog ein cyflenwyr i weithredu'r un safonau moesegol ag rydym ni’n eu harddel.

## Cod ymarfer

Rydym ni wedi mabwysiadu polisi caffael moesegol sy'n berthnasol i'r canlynol:

- pob aelod o'n Cyngor, ein staff, ein hasiantau a phobl rydym ni'n eu penodi
- staff sy'n cael eu cyflogi'n anuniongyrchol neu gan gontractwyr neu asiantaethau cyflogaeth i weithio ar ein safleoedd neu ymgymryd â gwaith ar ein rhan

## Cod

Rhaid i'n holl gyflenwyr gadw at yr amodau canlynol drwy:

- peidio â defnyddio gweithwyr sy'n gweithio o'u hanfodd neu dan orfodaeth neu rwymedigaeth
- ni fydd raid i'w staff adael blaendal neu bapurau adnabod gyda'r cyflenwyr
- bydd staff y cyflenwyr yn rhydd i ymadael â nhw ar ôl rhoi rhybudd rhesymol
- peidio â defnyddio gweithwyr sy'n blant (yn ôl diffiniad cyfraith gyflogaeth y wlad mae'r cyflenwyr yn gweithio ynddyn nhw)
- sicrhau bod amodau gwaith yn ddiogel a glân
- gweithredu mesurau iechyd a diogelwch cadarn i atal damweiniau a digwyddiadau y dylai'r gweithwyr eu cofnodi
- bod â pholisi diogelwch ac iechyd ar waith gyda hyfforddiant priodol i staff perthnasol
- sicrhau bod oriau a thâl gwaith yn rhesymol ac yn debyg i gwmnïau eraill yn eu sector
- rhaid i staff y cyflenwyr gael termau ac amodau cyflogaeth ysgrifenedig sy'n rhoi manylion o'u perthynas gyflogaeth a rhwymedigaethau'r cyflenwyr a'u staff, cyfraddau cyflog, oriau gwaith, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, hawl i wyliau, rheolau am dâl absenoldeb a salwch a chyfnod rhybudd i ddod â chyflogaeth i ben
- rhaid i ddidyniadau cyflog fod yn rhesymol ac ymwneud â'r gwasanaeth ar gyfer y didyniad yna; rhaid i'r gweithwyr roi eu cydsyniad clir ar gyfer pob didyniad a rhaid i gytundeb o'r fath beidio â bod yn eu contract cyflogaeth; rhaid peidio â chael dirwyon yn fodd o ddisgyblu gweithwyr
- rhaid i gyflenwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud ag yswiriant bywyd, yswiriant iechyd, budd-daliadau ymddeol ac iawndal gweithwyr
- rhaid i gyflenwyr gynnal eu busnes mewn modd sy'n cydnabod hawl pob unigolyn i gael eu trin yn gyfartal gydag urddas a pharch a gweithio mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag aflonyddu, cam-drin corfforol a geiriol neu fygythiadau o unrhyw fath
- rhaid i gyflenwyr beidio â gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr mewn unrhyw ffordd ar sail rhywedd, crefydd, hil, cast/dosbarth, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, aelodaeth o undeb llafur, ymrwymiad gwleidyddol a tharddiad cenedlaethol neu ethnig

- rhaid i gyflenwyr gynnal eu busnes mewn modd moesegol gan beidio â cheisio cael mantais i'r busnes mewn ffordd anfoesegol neu anonest gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol): llwgrwobrwyo, llygredigaeth, taliadau anghyfreithlon i hwyluso cael busnes, darparu rhoddion/ffafrau/gwasanaethau

## Cydymffurfiaeth

Drwy ymrwymo i gytundeb â ni, rhaid i gyflenwyr gytuno â thelerau'r Cod yma a'u derbyn.

Heb ragfarnu ynghylch darpariaethau'r cod neu amodau unrhyw gytundeb rhwng y cyflenwyr a ni, bydd hawl gennym ni yn ôl ein disgresiwn llwyr a diamod i ddod ag unrhyw gontract i ben â chyflenwyr ar unwaith a heb atebolrwydd os yw'r canlynol yn digwydd:

- nid yw cyflenwyr yn cydymffurfio'n llawn â'n gofynion craidd ar unrhyw adeg neu
- os, yn ein barn resymol, mae cyflenwyr yn methu â dangos i'n boddhad barodrwydd gwirioneddol i weithio tuag at ddiwallu pob darpariaeth yn y cod mewn cyfnod rhesymol o amser

## Adolygiad

Byddwn ni'n adolygu a diweddaru'r polisi yma'n flynyddol. Byddwn ni'n ei adolygu nesaf yn Mai 2024 pan ydym ni'n cyhoeddi'n flynyddol ein datganiad am gaethwasiaeth fodern.